Ymgartrefu yn eich cartref rhent

Dim ond y dechrau yw symud eich pethau i'ch cartref newydd. P'un a ydych chi'n denant am y tro cyntaf neu wedi rhentu o'r blaen, dyma rai awgrymiadau i'ch helpu i setlo mewn.

1. Archwiliwch yr ardal

Cyflwynwch eich hun i gymdogion, ewch i ddigwyddiadau lleol neu rhowch gynnig ar wirfoddoli. Mae'r rhain yn ffyrdd gwych o gwrdd â phobl newydd a dod yn aelod o'r gymuned.

2. Byddwch yn ystyriol

Parchwch breifatrwydd eich cymdogion. Peidiwch â gwneud gormod o sŵn os ydych chi'n chwarae cerddoriaeth neu os oes gennych ymwelwyr, yn enwedig yn hwyr y nos. Cadwch ardaloedd sy'n cael eu rhannu, fel ceginau, coridorau neu erddi, yn daclus.

3. Sortiwch eich gwastraff

Rhowch eich sbwriel a'ch ailgylchu allan ar yr adeg iawn ac yn y biniau cywir. Ar gyfer eitemau swmpus, fel oergell neu fatres, bydd angen trefnu casgliad neu fynd â nhw i ganolfan ailgylchu. Gofynnwch i'ch cyngor lleol am fwy o wybodaeth.

4. Parciwch yn synhwyrol

Gwiriwch a oes angen trwydded i barcio ar eich stryd. Peidiwch â blocio mynedfeydd, cyrbau isel, garejys neu balmentydd pan fyddwch chi'n parcio.

5. Triwch datrys problemau

Os oes gennych broblem gyda'ch cymydog, trafodwch hyn gyda nhw a cheisiwch ddod i gyfaddawd. Os nad yw hyn yn gweithio, cysylltwch â Chyngor ar Bopeth am gymorth.

Ewch i dudalen tenantiaid Rhentu Doeth Cymru i deall:

- eich cyfrifoldebau
- cyfrifoldebau eich landlord neu asiant
- ble i gael cymorth os fydd ei angen arnoch

Rhentu Doeth Cymru
Rent Smart Wales